19 oedd Sara pan gysylltodd hi gyda Gisda. O Dalysarn yn wreiddiol, roedd Sara yn byw yng Nghaernarfon ar y pryd. Roedd hi yn ymwybodol am wasanaethau Gisda oherwydd adnabod Simon Glyn a oedd yn gweithio i Gisda ar y pryd.

Symudodd Sara i fyw yn yr hostel yng Nghaernarfon am ychydig o fisoedd ac roedd hi'n mwynhau byw yna a gwneud ffrindiau newydd hefyd. Roedd hi'n teimlo'n positif am y dyfodol ers symud i'r hostel.

Pan orffennodd gwaith Sara, ddaru staff Gisda ei helpu i hawlio budd-daliadau a hefyd ei helpu i ddod o hyd i dŷ. Drwy gael yr help ychwanegol cododd ei hyder er mwyn iddi ddod o hyd i waith newydd.

Mae Sara yn gweithio rŵan ers rhyw bedair o flynyddoedd fel derbynnydd optegydd ac yn mwynhau ei gwaith.

Dywedodd Sara "Dwi'n meddwl fod Gisda yn elusen anhygoel. Roeddwn yn falch ofnadwy fod gwasanaeth Gisda ar gael i fi ar y pryd ac yn dal o gwmpas i bobl ifanc hyd at heddiw."

Sara